Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Mercher, 3 Chwefror 2016
Siambr y Cyngor, Prifysgol Abertawe

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Dr Mererid Hopwood, Yr Athro Carwyn Jones (tan 3.20), Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Yr Athro Gwynedd Parry, Llŷr Roberts

Aelodau (Sefydliad): Dr Gwenno Ffrancon, Dr Lisa Lewis, Delyth Murphy, Andrew Parry, Dr Elin Royles, Daniel Tiplady, Dr Catrin Haf Williams, Gaynor Williams

Aelodau (Myfyrwyr): Rhydian Birkinshaw, Jacob Ellis, Poppy Evans

Aelodau (Colegau Cymru): Robin Gwyn

Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Gwennan Schiavone (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau: Julie Brake, Dr Myfanwy Davies, Fflur Elin, Catrin Howells, Gwyndaf Lewis, Yr Athro Densil Morgan, Yr Athro Eleri Pryse, Gwerfyl Roberts, Llinos Roberts, Carys Swain, Aled Thomas, Yr Athro Deri Tomos, Linda Wyn, Yr Athro Enlli Thomas

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Cyflwyniad gan Brifysgol Abertawe	1.1. Cafwyd cyflwyniad gan Dr Gwenno Ffrancon a Lois Griffiths ar waith Cangen Prifysgol Abertawe ac Academi Hywel Teifi.		
2. Croeso a Sylwadau Agoriadol	2.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon. 2.2. Diolchwyd i Brifysgol Abertawe am letya'r cyfarfod. 2.3. Estynnwyd croeso i Robin Gwyn (ar ran Carys Swain a Llinos Roberts) ac Andrew Parry (ar ran Julie Brake). 2.4. Nododd y Deon y bu i'r Dr John S Davies, academydd ym maes y gwyddorau a chefnogwr darpariaeth cyfrwng		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Cymraeg, farw'n ddiweddar. 'Roedd Dr Davies hefyd yn aelod o Fwrdd Golygyddol *Gwerddon*. 2.5. Estynnwyd llongyfarchiadau i Brifysgol Abertawe am y cinio i ddathlu pum mlwyddiant Academi Hywel Teifi ar safle'r campws newydd yn y Bae.		
3. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	3.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 3.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi:		
4. Diweddariad gan y swyddogion	4.1. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd ar y sefyllfa gyllidol bresennol, y toriadau arfaethedig yng nghyllideb addysg uwch Llywodraeth Cymru ac effaith posibl y toriadau hynny ar gyllideb y Coleg.		
5. Adroddiad Interim Adolygiad Diamond	5.1. Cafwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr ar Adroddiad Interim Adolygiad Diamond. Nodwyd y byddai'r Coleg yn cyflwyno gwybodaeth ategol yn y dyfodol agos.		
6. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2015	6.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		
7. Cynllunio academaidd **(BA/16/01/09)**	7.1. Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd fel rhagarweiniad i drafodaeth gychwynnol ar y broses o greu Cynllun Academaidd newydd, i olynu'r cynllun gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2012. 7.2. Trafodwyd nifer o gwestiynau i'w cynnwys yn y strategaeth newydd yn ogystal ag ystyried papur cefndirol ar ddewisiadau pynciol myfyrwyr o Gymru. 7.3. Cytunwyd i gylchredeg y cwestiynau ar gyfer y cynllun newydd i'r aelodau ar gyfer ymatebion erbyn mis Mawrth er mwyn cyflwyno papur trafod i gyfarfod 11 Mai 2016.	NB i gylchredeg y cwestiynau. Aelodau i ymateb DT i ddrafftio papur trafod ar y cynllun newydd	Chwefror 2016 7 Mawrth 2016 11 Mai 2016

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
8. Materion academaidd (BA/16/01/07a) **(BA/16/01/7ch)**	8.1. Cyflwynwyd adroddiad ar y Cynllun Pwnc Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol gan Dr Dylan Phillips a Dr Catrin Haf Williams. Cyfeiriwyd at yr angen am ddeunyddiau ym maes Astudiaethau Crefyddol a llwybr dilyniant o safon A. Derbyniwyd y cynllun ar y ddealltwriaeth y byddai Prifysgol Bangor yn ychwanegu targedau a blaenoriaethau buddsoddi iddo. 8.2. Cafwyd adroddiad llafar ar sefyllfa gyfredol yr adolygiadau pynciol gan y Cofrestrydd. Yn sgil y cynllun academaidd newydd nodwyd nad oedd llawer o adolygiadau ar y gweill ond bod adolygiad o'r cynllun Chwaraeon yn yr arfaeth. Cafwyd adroddiad llafar gan Dr Gwennan Schiavone ar ddatblygiadau diweddar ym maes Diwydiannau Creadigol; adolygir y pwnc hwn ym mis Mawrth. 8.3. Cafwyd adroddiad llafar ar adolygiad y Prosiect Astudiaethau Rhan Amser gan Dr Gwennan Schiavone. 8.4. Cyflwynwyd adroddiad ar Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon a Chynllun Colegau Cymru gan Dr Gwennan Schiavone gan egluro bod y papurau a'r fanyleb, er gwybodaeth. Yn wyneb y newidiadau i addysg gychwynnol athrawon ac argymhellion Adroddiad Donaldson argymhellwyd adolygu'r cynlluniau yn y dyfodol.	Adolygu cynlluniau Chwaraeon a Diwydiannau Creadigol	Tymor y Gwanwyn
9. Pwyllgor Cydweithio Academaidd **(BA/16/01/11)**	9.1. Nodwyd cofnodion drafft 20 Ionawr 2016, er gwybodaeth. 9.2. Yn sgil y cofnod ar anghenion y Fframwaith Rhagoriaeth Dysgu (TEF) yn nodi bod y swyddogion wedi paratoi papur cychwynnol i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y fframwaith o'r cychwyn cytunwyd i gylchredeg y papur ymateb y Coleg i'r TEF i aelodau'r Bwrdd Academaidd, er gwybodaeth.	NB i gylchredeg papur TEF	Chwefror 2016

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
10. Strategaeth Ymchwil **(BA/16/01/12)**	10.1 Nodwyd cofnodion drafft y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi, 3 Tachwedd 2015, er gwybodaeth. 10.2 Cafwyd trafodaeth gyffredinol ar y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF), cyhoeddi erthyglau yn *Gwerddon* a'r wasgfa ariannol ar Wasg Prifysgol Cymru. 10.3 Nodwyd y bwriad i drafod y Strategaeth Ymchwil yn benodol yn un o gyfarfodydd y Bwrdd Academaidd cyn diwedd yr haf.	Eitem agenda	Gorffennaf 2016
11. Cyflwyniad gan y Gymdeithas Ddysgedig	11.1 Cafwyd cyflwyniad gan yr Athro M Wynn Thomas, Is-Lywydd y Gymdeithas Ddysgedig ar amcanion y Gymdeithas a'r datblygiadau sydd wedi digwydd ers ei sefydlu yn 2011. 112. Nododd bod y Gymdeithas wedi cyflwyno corff o dystiolaeth i Adolygiad Diamond, wrthi'n cyd-lynu rhwydwaith ysgolheictod ac yn gobeithio cynnal digwyddiad ar y cyd gyda'r Coleg yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. 11.3 Nodwyd ymhellach bod y Gymdeithas eisoes yn cynnal Darlith Flynyddol Eduard Lhuyd ar y cyd â'r Coleg ac yn noddi gwobr *Gwerddon*. 11.3 Diolchwyd yr Athro Thomas am ei gyflwyniad gwerthfawr.		
12. Materion y myfyrwyr	12.1. Diolchwyd i'r Cadeiryddion Cangen dan sylw am ymateb yn swyddogol i sylwadau'r myfyrwyr a godwyd yn y cyfarfod ar 14 Hydref 2015. Nodwyd bod canllawiau mewn lle i drafod materion myfyrwyr h.y. pa bynciau penodol y dylid eu codi yn y Bwrdd Academaidd a pha bynciau y dylid eu codi gyda'r gangen. 12.2. Cafwyd cyflwyniad ar bapur trafod y myfyrwyr ar gyfathrebu gan Poppy Evans. 12.3. Canmolwyd gwaith y llysgenhadon newydd ac 'ap' y Coleg. Gwelwyd budd mewn cyfleodd anffurfiol i drafod yn		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	hytrach na'r ymweliadau ysgol ffurfiol. 12.4. Gofynnwyd a fyddai modd ymestyn gweithgaredd marchnata'r Coleg i ddarpar fyfyrwyr y tu hwnt i Glawdd Offa. Nodwyd hefyd yr angen i sicrhau bod Swyddogion Sabothol di-Gymraeg Undebau Myfyrwyr Cymru yn deall cyd-destun addysg uwch cyfrwng Cymraeg. 12.5. Mewn ymholiad ynghylch dyddiad cau'r ysgoloriaethau nodwyd bod dau ddyddiad cau erbyn hyn ar gyfer yr ysgoloriaeth cymhelliant. 12.6. Nodwyd y bydd modd casglu gwybodaeth am gyn-fyfyrwyr y Coleg o hyn ymlaen. 12.7. Diolchwyd y myfyrwyr am eu hadborth a nodwyd gwerthfawrogiad yr aelodau am bapur trafod ym mhob cyfarfod.		
13. Ehangu mynediad a chyfranogiad **(BA/16/01/13)**	13.1. Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Ehangu Mynediad, 23 Hydref 2015, er gwybodaeth. 13.2. Cafwyd diweddariad ar waith y pwyllgor gan Delyth Murphy, Cadeirydd y pwyllgor. Nodwyd bod y gwaith o dargedu oedolion a rhieni yn mynd rhagddo. Cyfeiriwyd at holiadur profiad ehangach.		
14. Materion yn codi	14.1 <u>Eitem 7.5: Swydd Nyrsio</u> Nodwyd na ddenwyd ymgeisydd i'r swydd Nyrsio ym Mhrifysgol Abertawe hyd yn hyn, ond bod y drafodaeth yn parhau. 14.2 <u>Eitem 18.4: Prifysgol Glyndŵr</u> Nodwyd bod y trafodaethau i gryfhau perthynas y Coleg â Phrifysgol Glyndŵr yn parhau.		
15. UFA	15.1. Nodwyd, er gwybodaeth, bod Archwilwyr Mewnol y Coleg yn cynnal adolygiad o weithgareddau'r Canghennau. 15.2. Nodwyd mai Dr Dylan Foster Evans fydd yn cynrychioli		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	staff y Coleg ac mai Poppy Evans fydd yn cynrychioli myfyrwyr y Coleg yng Nghyfarfod Blynyddol Llys y Coleg a gynhelir yn y Deml Heddwch, Caerdydd ar 2 Mawrth 2016. 15.3. Nodwyd mai Geraint Talfan Davies, Ned Thomas a Rhian Huws Williams a anrhydeddir â Chymrodaethau yng Nghynulliad blynyddol y Coleg ar 2 Mawrth 2016.		
16. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	16.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol: • 11 Mai 2016, Prifysgol Metropolitan Caerdydd • 20 Gorffennaf 2016, Prifysgol Caerdydd		